**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH**
**a gynhaliwyd yn hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell drwy fideogynadledda ddydd Iau, 27 Mawrth 2025**

**Cynrychiolaeth Cyngor Sir Ceredigion:** y Cynghorydd Keith Henson (Cadeirydd) y Cynghorwyr Endaf Edwards a Shelley Childs

**Swyddogion yn bresennol:** Owen Morgan, Katy Spain, Robyn Beresford,Dana Jones

**Defnyddwyr Harbwr**: Hugh Martin, Meurig Lewis, Huw Roberts, Chris Seal, Martin Wood, Steve Webb, Gemma Bell

(7.00pm – 7:20pm)

1. **Ymddiheuriadau**
   Ymddiheurodd y Cynghorydd Brian Davies, Cyngor Tref Aberystwyth am ei analluu i fynychu'r cyfarfod.

2. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2024**
   CYTUNWYD i gadarnhau cofnodion cyfarfod 14 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

   **Materion yn codi**
   Dim.

3. **Diweddariad ar Wasanaethau'r Harbwr**
   - Cynhaliwyd proses recriwtio i benodi Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol yn dilyn ymddiswyddiad Chris Cattaway. Bydd Eva Rees yn dechrau yn ei swydd fel Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol ar 03 Ebrill 2025. Roedd Robyn Beresford wedi llwyddo i sicrhau swydd Arweinydd Gwaith Harbwr yn dilyn ymddiswyddiad Chay Sanders. Bydd recriwtio yn agor ar gyfer Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol i gymryd lle Robyn a'r gobaith yw penodi un o'r ymgeiswyr blaenorol ar gyfer y Cynorthwyydd Harbwr Tymhorol a gafodd ei hysbysebu yn ddiweddar.
   - Darparwyd diweddariad ar y Cynllun Amddiffyn Arfordirol a'r cymhorthion i drefniadau mordwyo a oedd yn cynnwys Rheolwr yr Harbwr yn arddangos diagramau yn y cyfarfod. Byddai Rheolwr yr Harbwr yn anfon Hysbysiad Lleol i Forwyr ar y diwrnod canlynol yn esbonio'r newid i farciau arbennig yn harbwr Aberaeron a gytunwyd arno gan Trinty House. NODYN AR ÔL Y CYFARFOD – Gellir dod o hyd i gopi o Hysbysiad Lleol i Forwyr AE 03.25: https://www.ceredigion.gov.uk/media/bnzdzzy0/ae-no-0325-aberaeron.pdf
   - Yn dilyn yr arolwg diweddar o'r Pontŵn, derbyniwyd adroddiad yr arolwg heddiw. Bydd yr adroddiad nawr yn cael ei adolygu a'i ystyried a bydd yn darparu gwybodaeth ategol i benderfynu ar y ffordd ymlaen.
   - Atgoffwyd defnyddwyr yr Harbwr eu bod yn cael eu hannog i gysylltu â'r Gwasanaeth Harbwr y tu allan i gyfarfodydd Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr, drwy Clic a'r Cymorthfeydd Harbwr.

4. **Rhestr Aros Angori wedi'i golygu**
Cytunwyd i nodi'r rhestr aros angori fel y'i cyflwynwyd.

5. **Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**
- Roedd rhaglen waith yn ymwneud ag atgyweiriadau i fylchau a oedd wedi ymddangos yn y wal fwlch, a'r gwaith sy'n weddill bydd angen ysgolion, ar y gweill gan y Tîm Caffael i'w datblygu ar hyn o bryd.
- Roedd angen gwaith cynnal a chadw ar rhai o'r Cymhorthion i Fordwyo yn Aberystwyth a'r bwriad yw y byddai'r gwaith yn digwydd yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd
- Adroddwyd bod y Swyddfa Harbwr bresennol wedi cyrraedd diwedd oes a'i bod yn cael ei disodli. Rhagwelir y byddai'r gwaith i gael gwared ar y swyddfa bresennol a gosod yr un newydd yn digwydd tua diwedd Ebrill 2025. Byddai diweddariadau'n cael eu darparu i Ddefnyddwyr Harbwr pan fydd manylion wedi'u cadarnhau yn hysbys.
- Adroddwyd bod rhaglen golchi'r llithrfa yn cael ei pharatoi ar gyfer y tri harbwr. Disgwyliwyd y byddai'r llithrfeydd yn cael eu golchi sawl gwaith trwy gydol y tymor yn unol ag adnoddau.

6. **Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr Harbwr**
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar e-bost a anfonwyd at y Cyngor gan Glwb Rhwyfo Aberystwyth yn ymholi mewn perthynas â phrydles Clwb Cychod Aberystwyth. Cadarnhawyd bod ymateb wedi'i anfon yn cynghori bod y mater wedi'i gyfeirio at Ystadau gan nad oedd hyn o fewn cylch gorchwyl y Gwasanaeth Harbwr.
- NID YW'N GYSYLLTIEDIG AG ABERYSTWYTH OND CODWYD YN Y CYFARFOD HWN – Gwnaed cais am oleuadau mordwyo ar hen wal ogleddol Harbwr Aberaeron, adroddwyd na fyddai golau yn cael ei osod gan fod digon o farciau mordwyo yn eu lle.
- NID YW'N GYSYLLTIEDIG AG ABERYSTWYTH OND CODWYD YN Y CYFARFOD HWN – Gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch y marc cardinal yng Nghei Newydd a oedd allan o'i le ac wedi'i ddifrodi. Adroddwyd bod y sylfaen yn dal ar y marc ac y byddai gwaith yn cael ei wneud i'w amnewid. Cadarnhawyd hefyd fod diweddariad ar y mater hwn eisoes wedi'i ddarparu yng nghyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr Cei Newydd fel a ganlyn: "Roedd golau Penpolion wedi'i atgyweirio a threfnwyd atgyweiriadau i farc Cardinal Gogledd Carreg Ina ar gyfer pan fyddai'r contractwr yn bresennol yn y dyfroedd lleol."